Sgriblwyr Cymraeg

# Gweithdy Cerddi'r Tywydd

Pam fod yr eira'n bwrw? A phwy yw'r hen wragedd a'u ffyn? Pam fod yr haul yn felyn mewn llun, ond mewn awyr 'go iawn' yn wyn?

A beth yn y byd ydy 'nigen'? Ac o ble daw'r fellten a'i thân? A pham bod y lleuad bob amser yn dlos, a'r glaw weithiau'n fras, weithiau'n fân …?

Bydd y gweithdy hwn yn gyfle i ni graffu o'r newydd ar y tywydd drwy greu cerddi ar y cyd.

## Cynllun Gwers
## NEWID HINSAWDD, GWEITHDY PRIFYSGOL ABERYSTWYTH
## Trafod y Tywydd

## Clymu gyda'r Cwricwlwm i Gymru

O'r Pedwar Diben, y ddau isod yw'r rhai amlycaf i gael eu datblygu yn y wers hon; cynorthwyo'r disgyblion i ddod yn:

- gyfranwyr mentrus, creadigol
- ddinasyddion egwyddorol

### Meysydd Dysgu a Phrofiad

- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
  (creu darn o lenyddiaeth; datblygu geirfa)
- Dyniaethau (effaith y tywydd)
- Celfyddydau mynegiannol (ymateb a myfyrio)

# POSTCARD

## Beth?

### Beth fydd y disgyblion yn ei ddysgu?

1. Sut mae llunio cerdd drwy graffu ar y tywydd – yn weledol ac yn glywedol.
   i) Manteision a phwysigrwydd sylwgarwch wrth greu celfyddyd
   ii) Sut mae canolbwyntio ar y synhwyrau (yn benodol, clywed a gweld) yn gallu creu delweddau
   iii) Cydymdeimlo â phobl sy'n byw mewn hinsawdd heriol

## Sut?

### Sut byddwn ni'n dysgu hyn iddyn nhw?

1) Dangos cyfres o luniau gwahanol dywydd a hinsawdd i'r disgyblion.

2) Yna, trafod y lluniau ar y cyd gan ystyried y cwestiynau hyn:
   i) Beth yw'r lliwiau yn y llun?
   ii) Sut y mae'r llun yn gwneud i ni deimlo?
   iii) Beth mae clust dychymyg yn ei glywed wrth edrych ar y llun?
   iv Gyda beth y gallwn ni gymharu'r tywydd yn y llun?
   v) Sut brofiad fyddai bod allan yn y tywydd a welir yn y llun?

3) Gan adael y lluniau am y tro, bydd yr arweinwyr gweithdy yn cyflwyno'r grwp i ymarferion (cyflym) technegau megis cyflythrennu, odli, rhythm ayb

## Sut?

### Suf byddaf i'n gwybod beth maen nhw wedi ei ddysgu?

Gan ddewis un llun, bydd y grwp yn creu cerdd ar y cyd sy'n ceisio dal awyrgylch y tywydd yn y llun a ddewiswyd ac sy'n defnyddio rhai o'r technegau a drafodwyd.

## Beth nesaf?

### Sut gallwn ni ymestyn y gwaith hwn?

1) Gellid edrych ar gerddi gan feirdd eraill am dywydd gan ystyried y delweddau mae'r geiriau'n eu creu.
2) Gellid craffu ar 'sain' y gerdd a beth sy'n cyfrannu at greu hwnnw
3) Gellid annog y disgyblion i greu ffilm o'u cerddi eu hunain (gan ddefnyddio apiau ffôn ayb)